# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mawrth, 16 Mawrth 2021** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd M.Harvey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, A.Evans, A.Jarrett, C.Griffiths, N.Pearce, H.Jones, C.Furlow-Harris, C.Plowman a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac P.D.Richards |

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Nigel Hunt Parthed: | Estyn y Cymorth Grant i Fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan gyfyngiadau masnachu ychwanegol ym mis Mawrth 2021, gan ei fod yn derbyn y grant cymorth i fusnesau. |
| Y Cynghorydd Saif Rahaman Parthed: | Estyn y Cymorth Grant i Fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan gyfyngiadau masnachu ychwanegol ym |

| | |
|---|---|
| | mis Mawrth 2021, gan ei fod yn berchen ar fusnes. |
| Y Cynghorydd Linet Purcell Parthed: | Estyn y Cymorth Grant i Fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan gyfyngiadau masnachu ychwanegol ym mis Mawrth 2021, gan fod aelod o'r teulu'n derbyn y grant cymorth i fusnesau. |
| Y Cynghorydd Rhidian Mizen Parthed: | Estyn y Cymorth Grant i Fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan gyfyngiadau masnachu ychwanegol ym mis Mawrth 2021, gan ei fod yn ysgrifennydd cymdeithasol Cwm Rygbi Cwmafan. |
| Y Cynghorydd Sharon Freeguard Parthed: | Estyn y Cymorth Grant i Fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan gyfyngiadau masnachu ychwanegol ym mis Mawrth 2021, gan ei fod yn aelod o fwrdd Age Connects CNPT. |

2. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif. 3 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi'r eitemau hyn yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Offeryn Statudol Rhif 2290 (fel y'i diwygiwyd)

Rheswm dros y mater brys:
Oherwydd yr elfen amser.

3. **ESTYN Y CYMORTH GRANT I FUSNESAU YR EFFEITHIWYD ARNYNT GAN GYFYNGIADAU MASNACHU YCHWANEGOL YM MIS MAWRTH 2021.**

(Ar y pwynt hwn o'r cyfarfod, atgyfnerthodd y Cynghorwyr N Hunt, S Rahaman, S Knoyle, R Mixen, L Purcell ac S Freeguard eu budd â'r eitem hon a gadawsant y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a'r bleidlais).

Hysbyswyd yr aelodau am estyniad i'r cynllun cymorth grant presennol, a oedd yn galluogi'r cyngor i wneud taliadau grant o £4,000 a £5,000 i fusnesau cymwys yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae hyn yn dilyn cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ar barhad y cyfyngiadau a ddaeth i rym ar 20 Rhagfyr 2020 i fis Mawrth 2021.

Nododd aelodau, gyda'r estyniad hwn ni fyddai unrhyw gymorth dewisol ar gael i fasnachwyr unigol fel yr oedd ar gael gynt yn y rownd flaenorol. Nodwyd bod hwn yn gyfnod anodd i fusnesau o hyd ac y byddai rhai busnesau'n dibynnu ar y cymorth dewisol hynny, felly awgrymwyd y dylai sylwadau gael eu hanfon i Lywodraeth Cymru yn gofyn am gymorth ychwanegol. Hysbysodd swyddogion yr aelodau eu bod wedi gofyn am gyllid ychwanegol ar gyfer cymorth dewisol ac y darparwyd £300,000 ychwanegol, sy'n golygu y byddai arian ar gael ar gyfer 135 grant.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

4. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

(Ailymunodd y Cynghorwyr N Hunt, S Rahaman, S Knoyle, R Mizen, L Purcell ac S Freeguard â'r cyfarfod)

**PENDERFYNWYD:** gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

5. **CRAFFU AR EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Craffodd y pwyllgor ar yr eitem breifat ganlynol ar agenda'r Cabinet:

Y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Rheilffyrdd yng Nghymru

Rhoddwyd y diweddaraf i aelodau am sefyllfa bresennol y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Rheilffyrdd yng Nghymru, fel a fanylwyd o fewn yr adroddiad a ddosbarthwyd yn breifat.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**